PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Aberystwyth University

Awen yr Ymadawedig

Rodway, Simon

Published in:
Dwned

Publication date:
2020

Citation for published version (APA):
Rodway, S. (2020). Awen yr Ymadawedig: Dau Gyfeiriad ym Marddoniaeth Wiliam Llyn. *Dwned*, *25*, 79-89.

General rights
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the Aberystwyth Research Portal (the Institutional Repository) are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the Aberystwyth Research Portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the Aberystwyth Research Portal

Take down policy
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

tel: +44 1970 62 2400
email: is@aber.ac.uk

Download date: 09. Feb. 2025

NODYN

Awen yr Ymadawedig: Dau Gyfeiriad ym Marddoniaeth Wiliam Llŷn

Trafodais mewn rhifyn blaenorol o'r cylchgrawn hwn y disgrifiadau enwog gan Thomas O'Sullevane, Marcwis Clanricarde, a chan Martin Martin o arfer beirdd y byd Gaelaidd o gyfansoddi cerddi yn y tywyllwch.[1] Fy nghasgliad oedd nad oedd dim tystiolaeth gadarn fod hyn erioed yn arfer ymysg beirdd Cymru, er gwaethaf honiadau i'r gwrthwyneb. Hoffwn ychwanegu yma droednodyn at y drafodaeth honno.

Dywed J. E. Caerwyn Williams am ddisgrifiadau Clanricarde a Martin: 'the poet was seeking literal inspiration, perhaps by gods or spirits, perhaps even by the spirits of the dead'.[2] Dyfynnir hyn mewn traethawd M.A. gan Berwyn Prys Jones, sy'n crybwyll yn y cyswllt hwn gyfeiriadau mewn cerddi diweddar o Gymru at feirdd yn gorwedd ar feddau prydyddion y gorffennol er mwyn ceisio'r awen.[3] A ellir dadlau ar sail y rhain fod gan yr arfer Gaelaidd arfer cytras yng Nghymru, ac felly fod gennym dystiolaeth o ddull cyfansoddi Celtaidd sy'n mynd yn ôl i'r cyfnod cynhanesyddol? Gellid cysylltu hyn â honiad Nicander o Colophon yn yr ail ganrif C.C., a ddyfynnir gan Tertullian, fod y Celtiaid yn arfer treulio'r nos ar bwys beddau enwogion er mwyn derbyn eu cyngor, er nad oedd Nicander yn sôn yn benodol am feirdd.[4] Cofier

---

[1] Simon Rodway, 'Ailystyried y bardd Celtaidd: defodau urddo a dulliau cyfansoddi', *Dwned*, 21 (2015), 11–47.

[2] J. E. Caerwyn Williams, *The Court Poet in Medieval Ireland* (London, 1972), t. 36.

[3] 'Astudiaeth Gymharol o Gyfundrefnau'r Beirdd yng Nghymru ac Iwerddon' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1973), tt. 16–17.

[4] Tertullian, *De Anima*, ed. J. H. Waszink (Amsterdam, 1947), t. 78; trans. *The Celtic Heroic Age: Literary Sources for Ancient Celtic Europe and Early Ireland and Wales*, ed. John T. Koch and John Carey (2nd edition, Malden, MA, 1995), t. 9. Gw. Philip M. Freeman, 'Visions from the Dead in Herodotus, Nicander of Colophon and the *Táin Bó Cúailnge*', *Emania*, 12 (1994), 45–8; Lawrence E. Eson, 'Merlin's Last Cry: ritual burial and rebirth of the poet in Celtic and Norse tradition', *Zeitschrift für celtische Philologie*, 55 (2006), 181–200 (tt. 195–6).

hefyd am y chwedl Wyddeleg lle mae bardd yn teithio at fedd yr arwr Fergus mac Róig ac yn galw ei ysbryd i ddweud wrtho hanes *Táin Bó Cúailnge* 'Cyrch Dwyn Gwartheg Cúailnge', er mai gwybodaeth yn hytrach nag awen a dderbynnir gan y bardd yn yr achos hwnnw.[5] Yn ôl Charles Vallancey yn ei *Vindication of the Ancient Kingdom of Ireland* (1786), byddai'r Gwyddyl yn cysgu ar 'cairns and tumuli' er mwyn ymgynghori â 'manes of their ancestors who were supposed to inform them either by dreams or visions of circumstances relative to the future events of their life'.[6] Unwaith eto, nid sôn am geisio'r awen a wneir yma.

Ond, cyn trafod y dystiolaeth gymharol ymhellach, gwell inni oedi i ystyried y dystiolaeth o Gymru y mae Berwyn Prys Jones wedi'i chywain. Yr enghraifft orau sydd ganddo yw cywydd gan Wiliam Llŷn yn marwnadu Edward Llwyd o Lanynys, lle y ceir y llinellau canlynol:

> Ag os mil a gais moliant
> Ar glod a thafod a thant
> Nid hwyrach ant i orwedd
> Ne rodio fis ar dy fedd
> Drwy awenydd dewr anian
> Deall cerdd deuwell i cân [.][7]

---

[5] Kevin Murray, 'The Finding of the *Táin*', *CMCS*, 41 (2001), 17–23. Cf. J. E. Caerwyn Williams, *Traddodiad Llenyddol Iwerddon* (Caerdydd, 1958), tt. 82–3; Freeman, 'Visions from the Dead'; Eson, 'Merlin's Last Cry', tt. 193–5; Johan Corthals, 'Why did Fergus rise from his grave?', *CMCS*, 55 (2008), 1–9; Jacqueline Borsje, 'Monotheistic to a certain extent: the "Good Neighbours" of God in Ireland' yn *The Boundaries of Monotheism: Interdisciplinary Explorations into the Foundations of Western Monotheism*, ed. A.-M. Korte and M. de Haardt (Leiden, 2009), tt. 53–82 (tt. 69–70).

[6] Ceir y dyfyniad perthnasol yn Hilda Roderick Ellis, *The Road to Hel: A Study of the Conception of the Dead in Old Norse Literature* (Cambridge, 1943), tt. 109–10. Ar safon sigledig ysgolheictod Vallancey, gw. Williams, *Traddodiad Llenyddol Iwerddon*, tt. 197–8.

[7] *Barddoniaeth Wiliam Llŷn*, gol. J. C. Morrice (Bangor, 1908), LXXXV.35–40. Am wrthrych a dyddiad y gerdd, gw. y nodyn ar d. 322; cf. *Gwaith Raff ap Robert*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 2013), cerdd 7.73–4. Awgrymodd Dr Lake wrthyf y gallai'r llinell 'Ne rodio fis ar dy fedd' ym marwnad Wiliam Llŷn i Edward Llwyd fod yn gyfeiriad at yr arfer o ddatgan marwnad fis ar ôl y farwolaeth. Ar hyn, gw. Huw M. Edwards, 'Dwyn marwnadau adref', *LlC*, 23

Â Jones yn ei flaen i grybwyll cyfeiriad arall gan yr un bardd yn ei farwnad i'w athro barddol, Gruffudd Hiraethog, lle y dywed, *Doeth fardd, felly daw o'th fedd / Ganghennau'r groes gynghanedd*.[8] Ond daw'n amlwg o'r cwpled blaenorol, nas dyfynnwyd gan Jones, mai cyfeiriad sydd yma at yr hanes apocryffaidd am Seth, mab ieuaf Adda, yn plannu tri hedyn o dan dafod ei dad a dyfodd yn dair coeden a ddarparai bren ar gyfer y Groes:

> Gwiail a gad, tyfiad da,
> Yn wŷdd o enau Adda;
> Doeth fardd, felly daw o'th fedd
> Ganghennau'r groes gynghanedd.[9]

Mewn geiriau eraill, bydd yr awen yn tyfu o'r hadau a blannwyd yn amser Gruffudd, fel y coed yn tyfu o fedd Adda.[10] Nid enghraifft o'r arfer honedig o dderbyn yr awen trwy orwedd ar fedd bardd mo hon, felly. Rhydd Jones enghraifft arall, o'r bymthegfed ganrif y tro hwn, lle y mae Huw Cae Llwyd yn datgan mewn marwnad i Wilym Fychan:

> Och Fair, oni chaf orwedd
> Ar y llech byth gerllaw'ch bedd,
> Ni cheisiaf, canaf i'r côr,
> Lle'r ŵyl ond gerllaw'r elor.[11]

Ni chredaf, fodd bynnag, fod hyn yn berthnasol ychwaith. Nid bardd mo Wilym Fychan, hyd y gwyddys,[12] ac nid oes sôn yma am geisio'r awen. Ymddengys i mi mai mynegiant o alar eithafol yw'r ddelwedd o orwedd ar fedd yr ymadawedig yma, un sy'n dwyn i

---

(2000), 21–38 (tt. 24–5). Cf. hefyd y cyfeiriad gan Siôn Cent a drafodir isod at orwedd ar fedd am fis.

[8] *OBWV*, t. 205; cf. Morrice gol., *Barddoniaeth Wiliam Llŷn*, LXXIX.65–6; *GGH*, III.65–6, t. 468.

[9] *GGH*, III.63–6, t. 468.

[10] Gw. nodyn Bowen yn *op. cit.*, t. 547. Diolchaf i Dr Cynfael Lake am dynnu fy sylw at y cyfeiriad hwn at hanes Adda.

[11] *GHCLIE*, XXV.27–30.

[12] Arno, gw. *op. cit*., t. 18; Ralph A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: The Structure and Personnel of Government*, *I, South Wales 1277 – 1536* (Cardiff, 1972), tt. 374–5; *GLGC*, t. 541.

gof y gân werin Wyddeleg ‘Táim sínte ar do thuama’ (‘Rwyf wedi ymestyn ar dy fedd’),[13] neu gerdd Eoghan Ruadh Mac an Bhaird o 1608 i Nuala, merch Aodh Dubh Ó Domhnaill, a wylai yn ei galar uwchben bedd ei brawd Ruaidhrí.[14] O dir Cymru, noder y cwpled canlynol o gywydd Siôn Cent ‘I wagedd ac oferedd y byd’:

> Ni ddeil alar yn ddilis,
> Ni orwedd ar ei fedd fis,

sy’n cyfeirio at gariad yr uchelwr marw yn peidio â galaru amdano’n ddigonol yn y mis rhwng ei gladdedigaeth ac adeg cynnal Offeren y Meirw.[15] Merched sy’n gorwedd ar feddau ym mhob un o’r enghreifftiau hyn, ond ceir enghreifftiau o Iwerddon lle mae bardd yn gorwedd ar fedd ei noddwr, fel yn y farwnad a ganwyd i Aodh Ó Conchobhair a fu farw yn 1309:

> Géabhad ós cionn chuirp an ríogh
> dar liom mar badh cuilt chaomh
>
> ‘I will go [and lie] on the king’s grave as though it were a spouses’ bed (?)’[16]

Dywed y golygydd am y llinellau hyn:

> My rendering of *cuilt chaomh* as ‘spouses’ bed’ (lit. ‘bed of companions’) is based on the common conceit of the marriage-type relationship between poet and patron. In

---

13 *Duanaire Gaedhilge Róis Ní Ógáin*, ed. Diarmaid Ó Doibhlin (Baile Átha Cliath, 1995), tt. 70–1; cyf. *A Celtic Miscellany*, ed. Kenneth Jackson (2nd edition, Harmondsworth, 1971), tt. 260–1.

14 *Duanta Eoghain Ruaidh Mhic an Bhaird*, ed. T. Ó Raghallaigh (Galway, 1930) cerdd 11. Cf. Williams, *Traddodiad Llenyddol Iwerddon*, t. 157. Gw. delwedd debyg yn un o’r cerddi yn llais Gormlaith (Osborn Bergin, *Irish Bardic Poetry: Texts and Translations*, ed. David Greene and Fegus Kelly (Dublin, 1970), 56.III.6). Cymharer hefyd sagâu Hen Norseg lle mae brenhinoedd yn gosod eu gorseddau ar ben beddau’r sawl y maent yn ei garu oherwydd galar (gw. Ellis, *The Road to Hel*, t. 106).

15 *IGE*^{2}, XCVI.33–4. Diolchaf i Dr Bleddyn O. Huws am dynnu fy sylw at y cyfeiriad hwn. Am gynnal Offeren y Meirw fis ar ôl y gladdedigaeth, gw. Edwards, ‘Dwyn marwnadau adref’, t. 27.

16 Damian McManus, ‘An elegy on the death of Aodh Ó Conchobhair († 1309)’, *Ériu*, 51 (2000), 69–91 (t. 83, pennill 33, llau. 1–2).

> elegies of this kind the patron's grave, usually *feart* or *uagh*, takes the place of his bed, commonly *leaba*, occasionally *cuilt*, in the standard eulogy. As sharing the latter symbolized the esteem in which the poet was held by the patron, so lying with him on his grave expressed the esteem in which the patron was held by the poet, his great grief and gratitude for the benefits that the relationship brought him.[17]

Digwydd y cysyniad o fardd fel priod ei noddwr yng Nghymru hefyd.[18] Tybed a oes gyfeiriad cynnil at hyn yn llinellau Huw Cae Llwyd i Wilym Fychan?

Gwelir, felly, mai dim ond y cyfeiriad o farwnad Wiliam Llŷn i Edward Llwyd a erys fel tystiolaeth am yr arfer o orwedd ar fedd i ennill awen. Mae'n bosibl, serch hynny, fod gennym *comparandum* i'r arfer nas crybwyllir yn nhraethawd Berwyn Rhys Jones, sef yr hanes adnabyddus am Gadair Idris a gofnodir am y tro cyntaf gan Siôn Dafydd Rhys yn yr unfed ganrif ar bymtheg:

> Ac ar y coryn vchabh i'r mynydh hwnn y mae megis lhvn dvlh ryw 'wely, mawr ei hyd a' lhed, 'wedy ei bheiliaw o bhain nev gerric 'osodedic oe' gylch. A hwnn a 'elwir Gwely Idris, cyd boed bhod yn debygolach y bhod yn bhedh y cledhyssid Idris yndaw gynt. Ac ebh a dhywedir taw pwy bynnac o dhyn a 'orwedho ac a gysco ar y gwely hwnnw, vn o'r dhev beth a dhamchweina idhaw, nailh ai bod yn Brydydh o'r bhath 'orev, ai yntev myned yn lhwyr ynbhyd o honaw.[19]

Noder, fodd bynnag, nad oes sicrwydd mai bedd oedd 'Gwely Idris'—barn Siôn Dafydd Rhys yw hynny, nid rhan o'r llên gwerin y mae'n ei chofnodi. Mae Patrick Sims-Williams yn nodi bod bryniau a thwmpathau'n cael eu hystyried yn lleoedd

---

[17] *Ibid.*, t. 89.

[18] Gw. Proinsias Mac Cana, 'The poet as spouse of his patron', *Ériu*, 39 (1988), 79–85; Peter Busse, 'The poet as spouse of his patron: homoerotic love in medieval Welsh and Irish poetry?', *Studi Celtici*, 2 (2003), 175–92.

[19] Chris Grooms, *The Giants of Wales/Cewri Cymru* (Lewiston, NY, Queenston & Lampeter, 1993), t. 298.

goruwchnaturiol yn aml mewn llenyddiaeth ganoloesol trwy Ewrop—mae Gorsedd Arberth yn enghraifft amlwg o Gymru.[20]

Hanes arall sydd, efallai, yn berthnasol yma yw'r hyn a gofnodir yn llawysgrif Peniarth 267 am Huw Arwystli (*fl*. 1550) a dderbyniodd yr awen yn ddirybudd ar ôl treulio nos Galan Mai yn eglwys Llandinam a chael breuddwyd lle y gwelodd 'un yn dyfod ato ac yn dodi peth yn ei ben', sef 'yr awenydd a roes Duw'.[21] Nid eglurir pwy neu beth oedd yr 'un' a ddododd yr awen ddwyfol ym mhen y bardd, fodd bynnag. Mae beddrodau yn yr eglwys, felly gellid dadlau mai ysbryd ydoedd, ond mae'r cyd-destun crefyddol o blaid ei ddehongli fel angel. Mae'r diffyg manylder am natur yr 'un' yn atgoffa rhywun o hanes Beda yn yr wythfed ganrif am y cowmon o Sais Caedmon y daeth rhywun (*quidam*) ato yn ei gwsg a gofyn iddo ganu ei emyn enwog.[22] Yn y cyfnod modern gellir cymharu hanes Micheál Mhac Dhonnchadha (m. 1937) o Cárna, Swydd Galway, am ei fam-gu Máire Ní Mhaoilchiaráin Phádraic a fyddai'n derbyn caneuon newydd gan ryw lais a ddeuai ati yn y nos.[23] Mewn marwnad gan Iolo Goch i'r bardd Llywelyn Goch ap Meurig Hen, gwelwn y gallai cymeriadau chwedlonol ddod ag awen yn y nos:

> I gan Daliesin finrhasgl,
> Trwy ei gwsg, nid drwg ei gasgl,

---

[20] Patrick Sims-Williams, *Irish Influence on Medieval Welsh Literature* (Oxford, 2011), t. 62.

[21] *Anecdotau Llenyddol*, gol. Tegwyn Jones (Talybont, 1987), tt. 23–4. Diolchaf i Dr Cynfael Lake am dynnu fy sylw at yr anecdot hwn. Mae Llew Tegid yn cofnodi fersiwn o'r un hanes am fardd 'godidog' o'r enw 'Bedo Neddrem' (*Bywgraffiad Llew Tegid gyda Detholiad o'i Weithiau*, gol. W. E. Penllyn Jones (Wrecsam, 1931), t. 89; cf. *Anecdotau Llenyddol*, gol. Jones, t. 219).

[22] *Bede's Ecclesiastical History of the English People*, ed. Bertram Colgrave and R. A. B. Mynors (Oxford, 1969), t. 416, cyfieithiad Saesneg ar d. 417. Er gwaethaf enw Brythonaidd Caedmon (Kenneth Jackson, *Language and History in Early Britain* (Edinburgh, 1953), t. 244), Saesneg oedd ei iaith gyntaf—go brin y gellid dadlau bod yma adlais o ryw ddefod Geltaidd.

[23] *Annála Beaga ó Iorrus Aithneach*, ed. Seán Mac Giollarnáth (Baile Átha Cliath, 1941), tt. 315–6. Cf. Williams, *Court Poet in Medieval Ireland*, t. 35, n. 5.

Y dysgodd – wi o'r disgibl! –
Ar draethawd bybyrwawd bibl.[24]

Ond yn aml, erys union natur yr ymwelwyr sy'n dwyn ysbrydoliaeth i freuddwydwyr o feirdd yn amwys; ffordd ydoedd o gynnal rhyw naws gyfriniol o amgylch y proffesiwn, mae'n siŵr. Mae'n ddigon posibl fod egin o wirionedd yn y straeon hyn, fodd bynnag—cofiwn, er enghraifft, am Thomas Parry yn derbyn cwpled cynganeddol yn ei gwsg, neu am y bardd Saesneg Samuel Taylor Coleridge yn derbyn y gerdd hir 'Kubla Khan' pan oedd yn cysgu dan ddylanwad cyffur.[25]

Yna mae gennym gyfeiriadau posibl at feirdd yn llefaru o'r bedd. Yn benodol gellid crybwyll y gerdd ddienw y rhoddir iddi'r teitl 'G6asgardgerd vyrdin yn y bed' yn Llyfr Coch Hergest, sy'n agor â'r llinellau *Gwr a leueir yn y bed*.[26] Cymharer, efallai, y pennill tywyll yn Llyfr Aneirin lle mae'r bardd yn honni ei fod mewn *ty deyeryn*.[27] Credai Skene fod y bardd hwn, fel Myrddin, yn siarad o'r bedd, ond nododd Ifor Williams y cyfeiriad yn y llinell nesaf at *cadwyn heyernin*:

---

[24] *GIG*, XXII.47–50. Cf. Rodway, 'Ailystyried y Bardd Celtaidd', t. 38.

[25] Gw. Gwyn Thomas, *Pair Ceridwen* (Llangefni, 1995), t. 24. Cf. hefyd J. R. R. Tolkien, yn sôn am gyfansoddi ei stori fer *Leaf by Niggle*: 'it reached manuscript form, very swiftly, one day when I awoke with it already in mind' (J. R. R. Tolkien, *Tree and Leaf* (London, 1964), t. 5).

[26] *The Poetry in the Red Book of Hergest*, ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911), 584.1–2. Ceir gan Eson, 'Merlin's Last Cry', tt. 184–7, ddadl bod Myrddin hefyd yn siarad o'r bedd yn y gerdd 'Cyfoesi Myrddin a Gwenddydd ei Chwaer' sy'n rhagflaenu'r 'Wasgargerdd' yn y Llyfr Coch, ond mae hyn ymhell o fod yn sicr. Cf. damcaniaeth betrus Sarauw bod y cymeriad Gwyddeleg Suibne Geilt, sy'n ymdebygu'n drawiadol i Fyrddin, yn adrodd y gerdd a briodolir iddo yn y Codex Sancti Pauli o'r bedd, gan ddeall y gair *airiucán* 'oratori' yn drosiadol (gw. F. W. O'Connell, *A Grammar of Old Irish* (Belfast, 1912), t. 164), ond mae hyn yn amhosibl, yn fy marn i, am fod y gerdd yn datgan mai'r sêr a'r lleuad sy'n toi'r *airiuclán* hwn. Ar y gerdd hon, gw., e.e., trafodaeth Donnchadh Ó Corráin, 'Early Irish hermit poetry?' yn *Sages, Saints and Storytellers: Celtic Studies in honour of Professor James Carney*, ed. Donnchadh Ó Corráin, Liam Breatnach and Kim McCone (Maynooth, 1989), tt. 251–67 (tt. 263–4); Máirín Ní Dhonnchadha, 'The cult of St Moling and the making of *Buile Shuibne*' yn *Buile Suibhne: Perspectives and Reassessments*, ed. John Carey (London, 2014), tt. 1–42 (t. 20).

[27] *Canu Aneirin*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1938), ll. 543.

> No one fastens iron chains round the knees of the dead. At any rate, it seems rather unnecessary. Living captives were often confined in this manner, even in underground prisons, and what the bard is trying to tell, surely, is his experience as a prisoner in the hands of the enemy after the battle.[28]

Gellid hefyd grybwyll y llinell *vyn tauawt y traethu vy marwnat* mewn cerdd anodd iawn o Lyfr Taliesin.[29] Am y llinell hon, dywed y golygydd, Marged Haycock: 'It seems bizarre – but not impossible – that the character [...] should be declaiming an elegy for his own demise'.[30] Fodd bynnag, mae enghreifftiau digamsyniol yn y traddodiad Cymraeg o gerddi yn llais cymeriadau marw. Yn 'Ymddiddan Arthur a'r Eryr', mae Arthur yn derbyn hyfforddiant crefyddol gan ei nai marw Eliwlad, yn rhith eryr, tra bod cerdd ymddiddan arall sydd hefyd yn cynnwys hyfforddiant crefyddol, yn cynnig i ni sgwrs rhwng dau sant, Llywelyn a Gwrnerth, gyda'r ail yn marw yn ystod yr ymgom, digwyddiad nad yw'n ei ddistewi o gwbl![31] Yn y gerdd yn llais Ysgolan yn Llyfr Du Caerfyrddin, o ystyried tystiolaeth y baledi modern o Lydaw am y cymeriad cytras Skol(v)an, mae'n debygol fod y llefarydd yn farw hefyd.[32] Ond er bod y cymeriadau hyn i gyd yn siarad â phobl fyw, nid oes yr un ohonynt yn cynnig hyfforddiant barddol. Mae gennym ddigon o enghreifftiau cymharol o feirdd Gwyddelig yn datgan cerddi o'r tu

---

[28] Ifor Williams, *The Beginnings of Welsh Poetry*, ed. Rachel Bromwich (2nd edition, Cardiff, 1980), t. 62. Ymhellach ar y pennill hwn, gw. Rodway, 'Ailystyried y bardd Celtaidd', tt. 33, 36 gyda chyfeiriadau.

[29] *Legendary Poems from the Book of Taliesin*, ed. Marged Haycock (2nd edition., Aberystwyth, 2015), 24.39.

[30] *Ibid*., t. 512.

[31] *Blodeugerdd Barddas o Ganu Crefyddol Cynnar*, gol. Marged Haycock (Llandybïe, 1994), cerddi 30 a 32.

[32] Gw. A. O. H. Jarman, 'Cerdd Ysgolan', *YB*, X (1977), 51–78; Mary-Ann Constantine, *Breton Ballads* (Aberystwyth, 1996), tt. 66–70; Fañch Postic, 'Between "lost literature" and "lnobtainable text": some connections between medieval literature and oral literature' yn *Regards croisés sur la Bretagne et le pays de Galles/Cross-Cultural Essays on Wales and Brittany*, ed. Anne Hellegouarc'h-Bryce and Heather Williams (Brest & Aberystwyth, 2013), tt. 89–112 (tt. 95–6); *Miracles and Murders: An Introductory Anthology of Breton Ballads*, ed. Mary-Ann Constantine and Éva Guillorel (Oxford, 2017), tt. 50–1.

hwnt i'r bedd.[33] Yn aml, maent yn cynrychioli llais o'r gorffennol sy'n gallu dilysu a rhoi stamp awdurdod ar ddatganiad o ryw fath gan awdur testun.[34] Diau mai dyma rôl Eliwlad, Gwrnerth ac ati yn y cerddi Cymraeg.

A ellir casglu, felly, fod darpar feirdd Cymru yn arfer mentro at feddau a derbyn yr awen yno? Efallai, ond mae'r dystiolaeth ddigamsyniol yn brin ac yn ddiweddar iawn. 'Plentyn ei oes' oedd Wiliam Llŷn yn ôl Branwen Jarvis.[35] A ddylid casglu mai yn ei waith ef yn unig o blith holl feirdd proffesiynol y Cymry y ceir adleisiau o hen ddefod gynhanesyddol? Yn hytrach, o ystyried ei statws fel 'the most accomplished elegist in the whole history of Welsh verse',[36] oni ellid tybied mai prawf o ddyfeisgarwch dychymyg Wiliam Llŷn yw'r ddelwedd o gyw fardd yn gorwedd ar fedd ei feistr i geisio amsugno peth o'i ddawn? Mae'n werth nodi bod Thomas Parry yn meddwl bod y ddyfais a welir yn ei farwnad i Ruffudd Hiraethog ac mewn marwnad arall o'i eiddo i Owain ap Gwilym, sef y deialog rhwng y bardd a'r ymadawedig, yn 'innovation devised by Wiliam Llŷn'.[37]

Yn ogystal â hyn, gellir tynnu sylw at *comparanda* o'r tu allan i'r byd Celtaidd ei iaith. Mae enghreifftiau diamwys o lenyddiaeth Hen Norseg o feirdd yn derbyn ysbrydoliaeth trwy fentro at feddau, heb sôn am enghreifftiau tebyg o draddodiadau pobloedd eraill, gan gynnwys yr Inuit, a rhai o frodorion Awstralia.[38] Noder hefyd yr hanes am Martin o Tours yn sefyll ar

---

33 Gw., e.e., *Fianaigecht*, ed. Kuno Meyer (Dublin, 1910), tt. 1–21; *Awen y Gwyddyl*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1922), tt. 22–4; Robin Flower, *The Irish Tradition* (Oxford, 1947), tt. 68–70, 83–4; Williams, *Traddodiad Llenyddol Iwerddon*, t. 52.

34 Flower, *Irish Tradition*, t. 6; Williams, *Traddodiad Llenyddol Iwerddon*, t. 82; Joseph Falaky Nagy, *Conversing with Angels and Ancients: Literary Myths of Medieval Ireland* (Dublin, 1997).

35 'Dilyn natur: sylwadau ar ganu Wiliam Llŷn ac R. Williams Parry', *YB*, IX (1976), 147–62 (t. 155).

36 Ceri W. Lewis, 'The decline of professional poetry' yn *GWL*^{2}, tt. 29–74 (t. 44).

37 *OBWV*, t. 549. Noder, fodd bynnag, yr enghreifftiau o sgyrsiau o'r fath a ddaw o'r Hengerdd a drafodir uchod.

38 Trafodir y testunau Hen Norseg gan N. K. Chadwick, *Poetry and Prophecy* (Cambridge, 1942), tt. 6–8; *eadem*, 'Norse ghosts', *Folklore*, 57 (1946), 50–65, 106–27 (tt. 61–5); *eadem*, 'Dreams in early European literature' yn *Celtic*

ben bedd er mwyn darganfod gwir natur y sawl a gladdwyd yno, gan ddarganfod, wedi siarad â'i ysbryd, mai lleidr ydoedd yn hytrach na merthyr fel y tybid yn lleol.[39] Gwyddom fod y stori hon yn hysbys yng Nghymru yn yr Oesoedd Canol diweddar am ei bod yn digwydd yn y cyfieithiad Cymraeg o *Fuchedd Martin* gan Siôn Trefor sy'n perthyn i ddiwedd y bymthegfed ganrif, a'r llawysgrif gynharaf yn llaw y bardd Gutun Owain.[40] Efallai fod Wiliam Llŷn yn gyfarwydd â'r fuchedd, fel yr oedd Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog, o bosibl,[41] ond nid yw'r stori am Martin yn hynod o agos at yr hyn a ddisgrifir yn y farwnad i Edward Llwyd: nid bardd mo Martin na'r dyn marw ychwaith, mae'r sant yn sefyll yn hytrach nag yn gorwedd ar y bedd, a gwybodaeth yn hytrach nag ysbrydoliaeth a geisir.

Dros y canrifoedd, mae pobl o bob cwr o'r byd wedi cael eu hysbrydoli trwy ymweld â beddi mawrion y gorffennol. Nid oes angen troi at Nicander o Colophon na llenyddiaeth Hen Wyddeleg i ddeall ysfa Dewi Prysor i ymweld â bedd Jim Morrison ym Mharis, er enghraifft.[42] Awgrymaf fod hyn yn wir hefyd am linellau Wiliam

---

Studies: Essays in Memory of Angus Matheson, ed. James Carney and David Greene (London, 1968), tt. 33–50 (tt. 41–3); Ellis, *Road to Hel*, tt. 108–9; Eson, 'Merlin's Last Cry', tt. 196–9. Cf. Mircea Eliade, *Shamanism: Archaic Techniques of Ecstasy*, trans. Willard R. Trask (Princeton, NJ & Oxford, 1964), t. 82: 'Eskimo, Australians and others too, who wish to become medicine men lie by graves; this custom survived even among some historical peoples (e.g. the Celts)' (cyfeiriad at Tertullian, siŵr iawn). Cf. *op. cit*., tt. 45 (am *medicine men* pobloedd Port Jackson, Awstralia, yn cysgu ar feddau); 102, n. 127 (am rai o bobloedd brodorol Gogledd America lle mae darpar siaman yn cysgu ar fedd). Gw. hefyd A. W. Howitt, 'Notes on songs and songmakers of some Australian tribes', *Journal of the Anthropological Institute*, 16 (1887), 329–34 (t. 330) am rai o bobloedd brodorol Awstralia sy'n honni bod beirdd yn derbyn cerddi gan ysbrydion eu hynafiaid.

[39] Gw. Chadwick, 'Dreams in early European literature', t. 36.

[40] *Buchedd Sant Martin*, gol. Evan J. Jones (Caerdydd, 1945), tt. 10–11. Bydd golygiad newydd o'r fuchedd gan Jenny Day yn ymddangos ar wefan prosiect 'Cwlt y Seintiau yng Nghymru', Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru <www.seintiaucymru.ac.uk>. Gw. Jenny Day, 'Agweddau ar gwlt Martin o Tours mewn llenyddiaeth Gymraeg hyd *c.* 1525', *LlC*, 40 (2017), 3–39 (tt. 3–4). Diolchaf i Dr Day am drafod hyn gyda mi.

[41] *Op. cit.*, tt. 14–15.

[42] Gw. hanes ei ymgais aflwyddiannus yn Dewi Prysor, *Ibuprofen s'il vous plait!* (Talybont, 2016), tt. 160–1, 162–3.

Llŷn. Ta waeth am hynny, nid oes unrhyw reswm neilltuol dros gysylltu'r llinellau hyn â'r arfer Gaelaidd o gyfansoddi yn y tywyllwch.[43]

SIMON RODWAY
Aberystwyth

[43] Rwy'n ddyledus i'r Golygyddion am nifer o gyfeiriadau defnyddiol yn y llith uchod. Myfi yn unig biau unrhyw wallau a erys.